

CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 15fed Mehefin 2016 yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymunedol Wellington, y Rhyl ar ôl cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd o'i flaen.

YN BRESENNOL

Y Cyngorydd A. R. James (Cadeirydd)

Y Cyngorwyr Mrs E. M. Chard, Ms J. McAlpine, Mrs W. Mullen-James, Miss S. L. Roberts, A. J. Rutherford, Miss R. Siddall, T. Thomas a'r Parch. S. Walker.

Miss H. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

4. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cyngorwyr Ms J. Hughes (yn sâl), B. F. Moylan (yn sâl), S. H. Ratcliffe (ymrwymiad teuluol), a Mr. G.J. Nickels (ar wyliau).

5. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd yr Aelodau y Ceisiadau Cynllunio a dderbyniwyd, fel y dangosir isod a **PHENDERFYNWYD** fel y nodir arnynt nawr.

CEISIADAU CYNLLUNIO		15 Mehefin 2016
5.1	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> Aranway House, Ffordd Dyserth, y Rhyl.</p> <p><u>WARD:</u> Tynewydd</p> <p><u>Rhif y CAIS:</u> 45/2016/0471</p> <p>Dileu Amod 3 Caniatâd Cynllunio rhif cyfeirio 45/2015/0654 yn ymwneud â darparu man agored.</p> <p>Yr Ymgeiswyr yw Mr a Mrs S Parker o Gelli Farm, Pen yr Allt, Trelogan, Treffynnon.</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> Gohirio er mwyn cael esboniad o natur y gofynion man agored.</p>	

5.2	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> 114 Grange Road, y Rhyl.</p> <p><u>WARD:</u> Tynewydd</p> <p><u>Rhif y CAIS:</u> 45/2016/0532</p> <p>Newid defnydd o dŷ annedd i ystafelloedd triniaeth harddwch i'w defnyddio mewn cysylltiad â salon presennol.</p> <p>Yr Ymgeisydd yw Miss Helen Harris o 8 Larkmount Road, y Rhyl.</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> Dim gwrthwynebiad</p>
-----	--

6. **HYSBYSIAD O APÊL CYNLLUNIO – HEN SAFLE THORPE ENGINEERING AND DESIGN, Ffordd DERWEN, Y RHYL**

Gan gyfeirio at gofnod rhif 59 cyfarfod 16eg Mawrth 2016, dywedodd y Cadeirydd bod hysbysiad (copi o'r hwn a ddisbarthwyd ymlaen llaw) o apêl anffurfiol wedi ei dderbyn, i'w gynnal ar 22ain Mehefin 2016 am 10.00a.m. yng Nghaledfryn, Ffordd y Ffair, Dinbych.

PENDERFYNWYD bod y Cadeirydd yn mynychu ac yn cynrychioli'r Cyngor Tref.

7. **TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach, datganodd y Cadeirydd bod y Cyfarfod wedi dod i ben.

Llofnod:

Dyddiad: